Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

# Cod Gwisg Cymru Gyfan Y GIG

## Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu



GIG CYMRU NHS WALES

Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales

## Cyflwyniad

Datblygwyd Cod Gwisg Cymru Gyfan y GIG i gynnwys yr egwyddorion hyn: ennyn ymddiriedaeth, atal heintio, a rheoli a sicrhau diogelwch y gweithlu.

Cydnabyddir bod y cyhoedd yn disgwyl i bob gweithiwr gofal iechyd gyfleu delwedd broffesiynol. Er nad oes raid i'r holl staff wisgo iwnifform, mae'n ofynnol i bawb gyfleu delwedd broffesiynol, daclus.

Mae'n hollbwysig ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd er mwyn cynnig gwasanaethau gofal iechyd o safon uchel. Mae tystiolaeth yn dangos bod nifer o faterion ynglŷn â gwisgo iwnifforms y GIG ac ymarweddiad staff y GIG yn peri pryder i'r cyhoedd.

Cafodd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cod Gwisg Cymru Gyfan ei datblygu gan yr Adran Iechyd yn Lloegr. Cyhoeddwyd y Cod gyntaf yn 2007 a'i ddiweddaru yn 2010. Mae *"Uniforms and Workwear: an evidence-based document on the wearing and laundering of uniforms"* i'w gweld yn **http://www.dh.gov.uk/publications**.

Mae'n rhaid i iwnifforms a/neu ddillad gweithle'r GIG fodloni argymhellion allweddol ym maes Iechyd a Diogelwch trwy:

- Alluogi'r gweithiwr i gydymffurfio â phrotocolau atal a rheoli heintiau, yn enwedig o ran technegau golchi dwylo
- dangos i ba gorff y mae'r unigolyn yn perthyn
- cyfleu delwedd broffesiynol i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd
- bod yn gyfforddus a galluogi'r gweithiwr i symud yn hwylus
- bod yn ddigon gwydn fel y gellir eu golchi'n drwyadl
- talu sylw i ddiogelwch staff mewn sefyllfaoedd treisgar ac ymosodol

Mae'r cod gwisg yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i holl staff y GIG gydymffurfio â nhw ac mae'n tanlinellu disgwyliadau penodol ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflenwi gwasanaethau clinigol. Mae'r cod gwisg yr un mor berthnasol i staff clinigol a staff eraill sy'n gweithiio yn GIG Cymru.

## Egwyddorion a disgwyliadau

EGWYDDOR 1

**Disgwylir i'r holl staff wisgo dillad smart, glân yn eu gweithle.**

**Disgwyliad:**

**Yr Holl Staff**

- Rhaid i'r staff gadw at egwyddorion Cod Gwisg Cymru Gyfan y GIG ynghylch gwisgo, a golchi, sychu a smwddio iwnifforms / dillad gwaith
- Rhaid i'r staff wisgo'u hiwnifforms / dillad gwaith mewn ffordd a fydd yn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd
- Rhaid asesu anghenion arbennig staff sy'n feichiog a gofyn i'w hadrannau iechyd galwedigaethol am gyngor
- Rhaid asesu anghenion arbennig staff sy'n anabl a gofyn i'w hadrannau iechyd galwedigaethol am gyngor

© Hawlfraint y Goron 2010
WAG10-10214 ISBN: 978 0 7504 5701 9 F360

**Staff Clinigol**

- Rhaid gwisgo iwnifform/dillad gwaith glân ar gyfer pob shifft / diwrnod gwaith
- Rhaid bod iwnifform arall ar gael i staff clinigol newid iddo os caiff yr un sydd amdanynt ei halogi yn ystod eu shifft / diwrnod gwaith
- Os yw'r staff yn golchi eu gwisg eu hunain, rhaid cadw at gyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n adlewyrchu'r canllawiau arferion gorau cyfredol ( Atodiad 2)

## EGWYDDOR 2

**Bydd yr holl staff yn cyfleu delwedd broffesiynol yn y gweithle.**

**Disgwyliadau:**

**Staff Clinigol**

- Rhaid i staff wisgo'u gwallt yn daclus; rhaid i wallt hir/hyd canolig gael ei glymu i fyny oddi ar yr ysgwyddau
- Ni chaniateir i staff wisgo gemwaith ar wahân i fodrwy briodas blaen /kara/stydiau clustiau
- Ni chaniateir gwisgo oriawr ar y garddwrn o gwbl yn yr amgylchedd clinigol
- Dim ond un set o stydiau clustiau y caiff staff sydd â thyllau yn eu clustiau eu gwisgo
- Rhaid i staff sydd â thyllau newydd eu gorchuddio â phlaster 'Glas'
- Rhaid i staff sy'n gweithio yn y maes clinigol roi gwallt hir nôl yn ddiogel
- Rhaid i staff sydd â barf ei chadw wedi'i thrimio'n daclus
- Ni chaniateir i staff wisgo ewinedd ffals na farnis ewinedd
- Rhaid i staff gadw eu hewinedd yn lân ac yn fyr
- Rhaid i esgidiau staff gydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol e.e. gwadnau meddal llai swnllyd, sodlau isel ar gyfer codi a chario a symud yn hawdd a blaenau wedi'u cau i warchod y traed

## EGWYDDOR 3

**Ni ddylai Staff Clinigol gymdeithasu y tu allan i'r gweithle na mynd i weithgareddau cymdeithasol yng ngwisg y GIG**

**Disgwyliadau:**

**Staff Clinigol**

- Os oes cyfleusterau newid ar gael, rhaid i staff newid o'u hiwnifform ar ddiwedd shifft cyn gadael y gweithle
- Os **NAD** oes cyfleusterau newid ar gael, dylai'r staff sicrhau bod eu hiwnifform wedi'i gorchuddio cyn gadael eu gweithle
- Rhaid i staff beidio â gwisgo'u hiwnifform mewn mannau cyhoeddus e.e. siopau (os bydd angen i staff fynd i fannau cyhoeddus wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt wneud pob ymdrech i orchuddio eu gwisg)
- Mae'n rhaid i staff sy'n cael gwisgo'u hiwnifform i fynd a dod o'r gwaith neu rai sy'n gweithio yn y gymuned orchuddio eu gwisg tra byddant yn teithio

EGWYDDOR 4

**Rhaid i'r holl staff clinigol wisgo llewys byr neu lewys penelin yn y gweithle fel y gallant olchi eu dwylo yn effeithiol.**

Disgwyliad:

Staff Clinigol

- Mae'n rhaid dilyn y trefniadau hylendid dwylo cywir cyn dod i gysylltiad â chleifion.

EGWYDDOR 5

**Rhaid i bob aelod o'r staff wisgo bathodyn adnabod clir bob amser.**

Disgwyliad:

Yr Holl Staff

- Rhaid i'r staff wisgo bathodyn adnabod (e.e. bathodyn enw a chod diogelwch arno) sy'n cynnwys eu teitl, eu henw a'u proffesiwn trwy'r amser tra byddant yn gweithio
- Rhaid i'r bathodyn adnabod fod i'w weld yn glir

EGWYDDOR 6

**Os yw staff yn cael gwisgo'u dillad eu hunain i'r gwaith, ni ddylent wisgo dillad sy'n debygol o greu perygl.**

Disgwyliad

Yr Holl Staff

- Dylai staff osgoi gwisgo dillad llac a allai beryglu eu hiechyd a'u diogelwch yn y gweithle.
- Dylai'r esgidiau fod yn gyfforddus ac yn ymarferol ar gyfer y gwaith a wneir.

## Gweithredu a monitro

Bydd Cod Gwisg Cymru Gyfan y GIG yn cymryd lle unrhyw bolisi lleol er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb rhwng yr holl sefydliadau gofal Iechyd. Caiff y sefydliadau eu monitro trwy gytundeb lleol ac ar lefel leol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar Bolisïau Cynhwysol caiff y ddogfen hon ei hadolygu ym mis Rhagfyr 2012.

## Cyfeiriadau

YR ADRAN IECHYD (2010) Uniforms and Workwear: an evidence- based document on the wearing and laundering of uniforms

YR ADRAN IECHYD (2006) Safety First: a report for patients and healthcare managers Yr Adran Iechyd: Llundain

Y COMISIWN IECHYD A DIOGELWCH (2000) Securing Health Together Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: Llundain

Llyfrfa Ei Mawrhydi (1974) Health and Safety at Work Act 1974 Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

Llyfrfa Ei Mawrhydi (1992) Manual Handling Operations Regulations Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

Llyfrfa Ei Mawrhydi (1999) Management of Health and Safety at Work Regulations Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

Llyfrfa Ei Mawrhydi (2002) Control of Substances Hazardous to Health Regulations Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

HMSO (2002) Personal Protective Equipment Regulations

Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

HMSO (2006) Health Act 2006 Code of Practice Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

JACOB, G (2007) Uniforms and Workwear. An evidence base for developing local policy Adran iechyd, Llundain

NHS Borders (2004) Dress Code/Uniforms Policy

COLEG BRENHINOL Y NYRSYS (2009) Guidance on uniforms and work wear.

COLEG BRENHINOL Y NYRSYS (2005) Wipe It Out. RCN Campaign on MRSA. Guidance on uniforms and clothing worn in the delivery of patient care Coleg Brenhinol y Nyrsys: Llundain

## Atodiad 1

Gwybodaeth atodol

| Arfer Da | Rheswm | Gwybodaeth ategol a/neu sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| Gwisgo llewys byr neu dorchi'r llewys at y penelin cyn gwneud gwaith clinigol | Gall cyffs gael eu halogi'n ddrwg ac maent yn fwy tebygol o gyffwrdd â chleifion<br>Gallant drosglwyddo heintiau<br>Gall llewys hir neu gyffs eich atal rhag golchi'ch dwylo'n iawn a gallent roi cleifion mewn perygl | Mae'n bosib y caiff rhai mathau o staff sy'n gweithio y tu allan eu heithrio rhag gorfod gwneud hyn e.e. gweithwyr ambiwlans, parfeddygon ac eraill sy'n rhoi gofal brys |
| Gwisgo mewn ffordd sy'n debygol o ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd | Gall pobl ddefnyddio ymddangosiad cyffredinol fel ffordd o fesur gallu a safon broffesiynol | |
| Os nad yw staff clinigol yn gorfod gwisgo iwnifform, ni ddylent wisgo dillad rhydd fel teis rhydd, na sgarffiau neu benwisgoedd yn hongian, na dillad tebyg. | Gall dillad fel hyn gyffwrdd â'r claf a'i amgylchedd yn ystod gwaith clinigol a gallent drosglwyddo heintiau. | Gallai dillad fel hyn beryglu staff. Dylid cynnal asesiad risg. |
| Os oes cyfleusterau newid ar gael, mae'n rhaid i staff clinigol sy'n gwisgo iwnifform newid eu dillad cyn gadael y gweithle<br>Os yw staff yn cael gwisgo iwnifform glinigol i deithio yn ôl a blaen i'r gwaith, dylent ei gorchuddio wrth deithio | Nid oes tystiolaeth gyfredol bod gwisgo iwnifform i deithio yn trosglwyddo heintiau, ond gallai danseilio ymddiriedaeth cleifion yn y gweithwyr iechyd a gofal.<br>Gallai'r staff fod yn agored i ymosodiadau os cânt eu gweld oddi ar y safle yn eu hiwnifform. | Nid yw hyn yn berthnasol i staff sy'n cael teithio fel rhan o'u gwaith e.e. staff cymunedol |
| Ni ddylai staff fynd i siopa nac i gymdeithasu na gweithgareddau tebyg yn gyhoeddus tra byddant yn eu hiwnifform | Nid oes tystiolaeth gyfredol bod teithio na siopa mewn iwnifform yn lledaenu heintiau ond gallai danseilio ymddiriedaeth cleifion mewn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol | Ceir tystiolaeth yn y cyfryngau bod tuedd ymhlith y cyhoedd i gredu bod staff yn lledaenu heintiau wrth wisgo iwnifform mewn mannau cyhoeddus |

| Arfer Da | Rheswm | Gwybodaeth ategol a/neu sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| Gwisgo rhywbeth fel y gellir eu hadnabod yn hawdd; iwnifform a/neu fathodyn enw neu fathodyn adnabod | Mae cleifion yn dymuno gwybod pwy sy'n gofalu amdanynt. Mae bathodynnau enw a iwnifforms yn eu helpu i wneud hyn | Mae gwybod pwy yw pwy yn bwysig er diogelwch cleifion a chleientiaid |
| Rhaid i staff newid cyn gynted ag sy'n ymarferol os gellir gweld bod eu dillad neu iwnifform wedi'u baeddu neu os byddant wedi'u halogi â gwaed neu hylifau'r corff | Os gellir gweld bod dillad wedi'u baeddu neu os byddant wedi'u halogi, gall fod perygl o ledaenu haint ac mae'n debygol o danseilio ymddiriedaeth cleifion | Rhaid i ymddiriedolaethau sicrhau bod trefniant lleol i wneud hyn |
| Dylai pob aelod o staff sydd â gwallt hir ei glymu'n ddiogel. | Fel rheol, mae'n well gan gleifion gael eu trin gan staff sydd â gwallt ac ymddangosiad taclus.<br>Gallai gwallt hir heb ei glymu'n ôl gyffwrdd â'r claf a'i amgylchedd yn ystod gwaith clinigol a gallai drosglwyddo heintiau. | Dylid clymu gwallt hir yn ôl ac oddi ar y goler |
| Rhaid i staff gael digon o iwnifforms fel y gallant wisgo un lân ar gyfer pob shifft<br>Rhaid rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i staff sy'n golchi eu hiwnifforms eu hunain. Rhaid i'r canllawiau adlewyrchu'r arferion gorau cyfredol | Dylid gwisgo iwnifform glân ar gyfer pob shifft<br>Dylid rhoi digon o iwnifforms at gyfer y trefniadau golchi a argymhellir | Os rhoddir cyfarwyddiadau clir i staff ynghylch glanhau iwnifforms, bydd yr iwnifforms yn cael eu prosesu yn unol â'r argymhellion cyfredol (Atodiad 2)<br>Os nad oes gan staff ddigon o iwnifforms, efallai y cânt eu temtio i beidio â'u golchi mor aml. |

| Arfer Da | Rheswm | Gwybodaeth ategol a/neu sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| Ni chaiff staff wisgo gemwaith ar eu garddyrnau na'u dwylo wrth wneud gwaith clinigol | Rhaid i staff dynnu eu horiawr oddi ar eu garddwrn cyn gwneud gwaith clinigol ac er mwyn hybu hylendid dwylo<br>Gall micro-organebau fyw o gwmpas gemwaith dwylo/garddyrnau a'i gwneud yn anodd cydymffurfio â threfniadau hylendid dwylo | Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau. Canllawiau ar gyfer Hylendid Dwylo mewn Lleoliadau Gofal Iechyd: Argymhellion y Pwyllgor Cynghori ar Arferion Rheoli Heintiau Gofal Iechyd a Thasglu Hylendid Dwylo ICPAC/SHEA/APIC/IDSA. MMWR 2002;51 (Rhif RR-16) |
| Dylai staff clinigol gadw eu hewinedd yn fyr ac yn lân<br>Ni chaiff staff clinigol wisgo ewinedd ffug na farnis ewinedd | Gall ewinedd hir a/neu fudr edrych yn ddrwg ac mae ewinedd hir yn anos eu cadw'n lân<br>Gall ewinedd hir a/neu fudr drosglwyddo heintiau. | Canolfannau Rheoli ac Atal Clefydau. Canllawiau ar gyfer Hylendid Dwylo mewn Lleoliadau Gofal Iechyd: Argymhellion y Pwyllgor Cynghori ar Arferion Rheoli Heintiau Gofal Iechyd a Thasglu Hylendid Dwylo ICPAC/SHEA/APIC/IDSA. MMWR 2002;51 (Rhif RR-16) |
| Dylai esgidiau sy'n cael eu gwisgo i wneud gwaith clinigol fod yn addas at y diben a dylent gydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch perthnasol | Mae esgidiau â'u blaen wedi cau yn eich gwarchod os collwch hylif neu rywbeth. Mae gwadnau meddal yn dawelach. Mae angen sodlau isel i gydymffurfio â'r polisïau codi a chario. | |

*Hydref 2010*

## Atodiad 2

**Canllawiau i staff gofal iechyd sy'n golchi eu hiwnifforms / dillad gwaith gartref.**

Mae'r sefydliad sy'n eu cyflogi yn darparu gwasanaeth golchi dillad ar gyfer staff sy'n gweithio mewn rhai sefyllfaoedd clinigol. Ar ôl cyflwyno iwnifform cenedlaethol y GIG a dechrau darparu cyfleusterau newid ar y safle ar gyfer yr holl staff gofal iechyd, y cam rhesymegol nesaf fydd cyflwyno gwasanaaethau golchi dillad fel na fydd angen i'r staff fynd â dillad sydd wedi'u defnyddio neu wedi'u halogi gyda nhw pan fyddant yn gadael y safle.

Hyd nes i'r gwasanaethau hyn gael eu cyflwyno ac mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r cyflogwr yn eu darparu, mae'n ddoeth rhoi canllawiau i'r staff ar y ffordd orau i ofalu am eu dillad gartref.

Dylai'r canllawiau gynnwys y pwyntiau isod:

- Os oes cyfleusterau newid ar y safle eisoes, neu pan gânt eu darparu, dyla'r staff newid o'u hiwnifform ar y safle.
- Dylai'r iwnifforms gael eu cario mewn bag plastig clir neu fag sy'n toddi mewn dŵr ac sy'n addas i'w ddefnyddio mewn peiriant golchi domestig*
- Dylai iwnifforms gael eu golchi ar y tymheredd uchaf sy'n addas ar gyfer y defnydd. Dylai golchi am ddeng munud ar 60°C gael gwared o'r rhan fwyaf o ficro-organebau**
- Dylid sicrhau nad yw'r peiriant golchi'n cael ei orlwytho er mwyn i'r stwff glanhau a'r golchiad fod mor effeithlon ag y bo modd.
- Dylai staff olchi eu dwylo ar ôl llwytho'r peiriant.
- Mae'n well defnyddio stwff golchi biolegol
- Dylid sychu'r dillad mewn peiriant sychu ar y gwres uchaf a argymhellir gan y gwneuthurwr neu eu sychu'n dda yn yr awyr cyn eu smwddio ar y gwres uchaf a argymhellir gan y gwneuthurwr.

* *Erbyn hyn, mae bagiau plastig sydd â llinyn clymu a sêm sy'n toddi mewn dŵr ac sy'n addas i'w defnyddio mewn peiriannau golchi domestig, ac wedi'u labelu'n glir fel y gall staff eu defnyddio, a'r cyfarwyddiadau wedi'u hargraffu arnynt, ar gael trwy gontract Cyflenwadau Iechyd Cymru. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain fod ar gael i gario pob iwnifform ond dylid ystyried eu defnyddio o leiaf os gellir gweld bod iwnifform wedi'i baeddu neu pan fydd achosion o glefyd penodol wedi'u cadarnhau. Trwy ddefnyddio bag fel hyn, ni fyddai angen i'r staff drafod yr iwnifform gartref. Mae'n ddiogel rhoi'r bag cyfan yn y peiriant golchi. Ni ddylai'r bagiau toddi a ddefnyddir gan olchfeydd ysbytai gael eu rhoi i staff hyd yn oed os ceir clwstwr o achosion. Nid ydynt yn addas i'w defnyddio mewn peiriannau domestig lle nad yw effeithlonrwydd y stwff glanhau na'r tymheredd mor uchel ag y ceir mewn peiriant masnachol.*

** *Dylai'r sefydliadau cyflogi dalu sylw i gyfarwyddiadau golchi'r gwneuthurwr yn ystod proses gaffael iwnifforms a brynir y tu allan i'r contract cenedlaethol.*